

Cronfa Loteri Fawr

# Cynllun Corfforaethol 2017–18

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

# Cyflwyniad

**Rydym yn nesáu at bwynt canol ein fframwaith strategol chwe blynedd, Galluogi Pobl i Arwain, sy'n ymestyn ar draws y blynyddoedd 2015 i 2021. Cafwyd cyflawniadau niferus ers iddo ddechrau ac er bod gwaith i'w wneud o hyd, mae'r Fframwaith Strategol wedi gweld rhaglenni a phortffolios newydd ar draws y Deyrnas Unedig sy'n dangos sut rydym yn cefnogi'r syniadau a'r cryfderau y mae pobl yn dod â nhw at fywyd dinesig.**

Clawr: Fferm Ddinas Rhydychen Derbyniodd grant i redeg digwyddiad Hwyl ar y Fferm, gan drawsnewid safle tir llwyd i fferm gymunedol weithredol

Mae ein staff uchelgeisiol ac ymroddedig yn newid ein dulliau gweithio. Maent yn siarad â phobl am y syniadau sydd ganddynt i wella'u cymuned, ac ar yr un pryd cofleidio oes ddigidol newydd a fydd yn sicrhau ein bod mor hygyrch ac yn barod i ymateb ag y gallwn fod.

Rydym yn ariannu cymunedau ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig ac mae'r ystod o weithgareddau a gyflawnir i wella cymdogaethau a helpu eraill yn anhygoel. Rydym wedi bod yn gwrando ar y bobl a ariannwn ac wrth i anghenion cymunedau dyfu a newid, rydym yn deall eu nodweddion ac yn datblygu ymagwedd newydd a gwell.

Rydym yn gwella'n presenoldeb digidol ac yn galluogi ceisiadau ar-lein, gan ei wneud yn llawer haws i gymunedau gael gwybod am ein grantiau a chael mynediad atynt. Mae hyn yn golygu ein bod yn cyrraedd ystod ehangach o bobl a llawer nad ydynt erioed wedi cael eu hariannu gennym o'r blaen.

Mae ein partneriaethau'n bwysig i ni ac ni waeth p'un ai gydag elusennau, arianwyr eraill neu fudiadau masnachol, mae cydweithio i rannu gwybodaeth ac arfer gorau'n hanfodol i fwyafu ein heffaith.

Yn sail i hyn i gyd yw'r gydnabyddiaeth bod cyd-destun yn bwysig. Trwy gydweithio'n agos â'r cymunedau a ariannwn, gallwn fod yn fwy effeithiol ar lefel leol. Rydym yn newid y ffordd yr ydym yn cywain gwybodaeth trwy siarad â phobl cyn iddynt ymgeisio am ein grantiau a gofyn cwestiynau mwy gwybodus. Rydym yn cywain gwybodaeth gywirach ac yn darganfod mwy am y sector gwirfoddol a chymunedol, sy'n helpu cyfeirio ein penderfyniadau ariannu ar gyfer y dyfodol.

Mae staff y Gronfa Loteri Fawr yn ddawnus ac yn frwdfrydig a dyna'r hyn, uwchben popeth arall, a fydd yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion hyn.

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr

**Peter Ainsworth**
Cadeirydd

# Amdanom ni

**Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n gweithio ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Rydym yn gyfrifol am ddosbarthu 40 y cant o'r holl arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol – yn 2017/17 rydym yn disgwyl dyfarnu tua £508 miliwn.**

Mae ein hariannu'n treiddio i bob cymdogaeth yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt, gyda dyfarniadau'n amrywio o rai cannoedd o bunnoedd i grantiau gwerth sawl miliwn o bunnoedd.

Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi dibenion iechyd, addysg, amgylcheddol ac elusennol cyffredinol. Mae ein rôl ni fel stiward arian achosion da gan y cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol yn caniatáu i ni gefnogi miloedd o bobl a phrosiectau ysbrydoliaethus ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae mwy o wybodaeth amdanom ni, gan gynnwys ein trefniadaeth, ar ein gwefan yma:
**biglotteryfund.org.uk/welsh/about-big/our-people**

## Ein ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod

Lansiwyd ein Fframwaith Strategol yn 2015 - gan ddisgrifio bwriad a themâu Galluogi Pobl i Arwain y Gronfa hyd at 2021. Mae'n arwain ni trwy'r dewisiadau a wnawn a gellir ei lawrlwytho yn: **biglotteryfund.org.uk/welsh/about-big/strategic-framework**

Ein ffocws yn y drydedd flwyddyn yw parhau i gyflwyno rhaglen newid uchelgeisiol ar draws y mudiad. Rydym yn profi ac yn gweithredu dulliau gweithio newydd, gan sicrhau bod gennym yr offer a'r sgiliau i gyflwyno ein gweledigaeth.

Rydym wedi amlinellu chwe amcan corfforaethol i sicrhau ein bod yn defnyddio arian achosion da'r Loteri Genedlaethol yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n cyfateb i'n cenhadaeth a chyfarwyddiadau polisi gan y Llywodraeth.

Mae pob amcan yn cysylltu â chynlluniau busnes ein cyfarwyddiaethau ac yn dangos sut y byddwn yn defnyddio'r flwyddyn i ddod i ddatblygu a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Wrth wraidd yr amcanion hyn mae ein chwe egwyddor allweddol, sy'n dangos ein gwerthoedd craidd fel mudiad. Mae'r egwyddorion hyn yn amlinellu themâu sy'n ymestyn ar draws ein gwaith ac yn dylanwadu ar ein penderfyniadau ariannu.



**Age UK Kensington and Chelsea**
Gan dderbyn grant i gynnal Dawns Cinio'r Ŵyl ar gyfer dros 250 o bobl, daeth y digwyddiad â phobl hŷn unig i gysylltiad â gwirfoddolwyr sy'n fyfyrwyr i fwynhau cerdd, bwyd a dawnsio gyda'r nod o adeiladu perthnasoedd cryfach.

# Amcanion corfforaethol 2017-18

## Datblygu ein prosesau gwneud grantiau

- Mae'n hawdd i'n cwsmeriaid gael gwybodaeth am ein grantiau ac ymgeisio amdanynt. Maent yn cytuno bod gwybodaeth amdanom yn hawdd i'w cyrchu, bod ein deunyddiau'n glir a'n staff yn barod i helpu.

**DPA 1** Mae 40% o gwsmeriaid yn cael y broses ymgeisio grantiau bach yn hawdd neu'n hawdd iawn

**DPA 2** Mae 77% o'r cwsmeriaid a holwyd yn hapus yn gyffredinol

## Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio

- Byddwn yn datblygu'r Gronfa a'n staff, o fewn ein targed costau gweithredu, i sicrhau ein bod yn barod i ymateb i heriau a chyfleoedd mewn byd newidiol, gan roi ein cwsmeriaid yn gyntaf a gwella'u profiad o weithio gyda'r gyda'r Gronfa.

**DPA 3** Mae costau gweithredu'n parhau i gyfateb i'n targed blynyddol o 8%

**DPA 4** Ar darged i gyflwyno prosiectau allweddol yn ein rhaglen newid

## Gwella sut rydym yn cefnogi budd-ddeiliaid

- Byddwn yn datblygu perthnasoedd effeithiol â budd-ddeiliaid i sicrhau partneriaethau gwaith agos â mudiadau a phobl eraill. Bydd ein budd-ddeiliaid yn gwybod sut i gysylltu â ni a byddwn yn deall y cyswllt yr ydym wedi'i gael gyda nhw.

**DPA 5** Mae strwythurau'n bodoli i fonitro a mesur canfyddiadau budd-ddeiliaid yn well

## Rhoi'r systemau y mae eu angen arnom ar waith

- Byddwn yn rhoi systemau ar waith fel bod ein hisadeiledd yn cefnogi taith y cwsmer gyda ni a'n hamcanion busnes ehangach. Byddwn yn sefydlu system a phrosesau i ddeall ein hadnoddau a'u defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon, gan gynllunio ar gyfer y dyfodol ar yr un pryd.

**DPA 6** Mae'r porth ymgeisio ar-lein yn cael ei weithredu

## Gwella'n hymwybyddiaeth fusnes

- Byddwn yn harneisio ac yn defnyddio ein data'n fwy effeithiol i gael effaith gadarnhaol ar ein cwsmeriaid. Bydd hyn yn galluogi ni i wneud dewisiadau mwy gwybodus sy'n seiliedig ar gyd-destun lleol a thueddiadau datblygol, ac ar yr un pryd lledaenu gwybodaeth ac arfer gorau o gwmpas y mudiad ac mewn cymunedau lleol.

  **DPA 7** Monitro ar draws 2017/18 i bennu gwaelodlin ar gyfer nifer y bobl sy'n elwa'n uniongyrchol o'n grantiau

  **DPA 8** Tracio'r nifer o weithiau y mae data sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael ei gyrchu gan fudd-ddeiliaid allanol

## Gwneud ni'n fedrus yn ddigidol

- Bydd gan y Gronfa agwedd ddigidol at wella ein gwasanaethau. Bydd yn golygu ein bod yn canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer, gan fabwysiadu dulliau gweithio deinamig a hyblyg ac yn y pen draw gwella'n cynnig digidol i'n cwsmeriaid a'n staff.

  **DPA 9** Mae 50 o dudalennau gwe ar cronfaloterifawr.org.uk yn cael eu newid neu eu cyfuno i dudalennau gwe newydd sy'n ffocysu'n fwy ar anghenion defnyddwyr

# Ein hegwyddorion yw

## 1

### Hyder, nid rheolaeth

Rydym yn ymddiried yn ein gallu i beri i bethau gwych ddigwydd, gan gredu y dylai ein hariannu alluogi yn hytrach na rheoli.

## 2

### Cryfderau pobl

Rydym yn dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, a'r potensial yn eu syniad.

## 3

### Catalydd i bobl eraill

Rydym yn gwrando ar, dysgu gan, gweithredu ar ac yn hwyluso'r pethau sydd o bwys i bobl, cymunedau a'n partneriaid.

## 4

### Prosesau syml, barn dda

Rydym yn defnyddio prosesau syml a chymesur sy'n ein galluogi i ffurfio barn dda.

## 5

### Cyfeiriad a rennir, dulliau amrywiol

Rydym yn gwerthfawrogi gwahaniaeth o ran ein dulliau gweithio ar draws y Deyrnas Unedig, yn gyson o ran yr ansawdd a'r cyfleoedd a gynigiwn i bawb, ac yn cefnogi pobl i daclo anghydraddoldeb.

## 6

### Defnyddio adnoddau'n dda

Rydym yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr adnoddau a roddir i ni gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol: gyda gwybodaeth, gyda phobl a gydag arian, ac mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

# Cyllidebau grant

## Ein cyllidebau ar gyfer 2017-18 yw:

| | Cyllideb gymeradwy 2017–18 £m |
|---|---|
| Lloegr | 338.9 |
| Yr Alban | 64.5 |
| Cymru | 37.9 |
| Gogledd Iwerddon | 24.9 |
| Deyrnas Unedig | 42.1 |
| **Cyfanswm cyllideb** | **508.2** |

## Ein cyllideb grant ar gyfer rhaglenni cynlluniedig yn 2017-18 yw:

| Rhaglenni Lloegr | Cyllideb gymeradwy 2017–18 £m |
|---|---|
| A Better Start | 1.1 |
| Ageing Better | 0.8 |
| Building Better Opportunities | 8.4 |
| Commissioning Better Outcomes | 22.3 |
| HeadStart | 3.0 |
| Help through Crisis | 3.0 |
| Multiple and Complex Needs | 0.2 |
| Parks for People | 14.4 |
| Talent Match | 1.6 |
| Women and Girls Initiative | 2.7 |
| Cronfa #iwill | 9.7 |
| Simple Grants | 70.0 |
| Standard Grants | 163.0 |
| Collaborative Funding | 30.0 |
| Cyllideb ar gyfer datblygu rhaglenni pellach | 8.9 |
| | **338.9** |

| Rhaglenni'r Alban | Cyllideb gymeradwy 2017–18 £m |
|---|---|
| ARR Community Shares DTAS | 0.4 |
| ARR Learning | 0.3 |
| Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol | 8.2 |
| Community Assets | 10.0 |
| Community Led Medium | 6.5 |
| Improving Lives Large | 13.5 |
| Improving Lives Medium | 11.0 |
| Investing in Communities 2 | 0.4 |
| Investing in Ideas | 0.1 |
| Our Place | 6.0 |
| Prevention & Early Intervention | 7.8 |
| Single Awards - Supporting Great Ideas | 0.3 |
| | **64.5** |

| Rhaglenni Cymru | Cyllideb gymeradwy 2017–18 £m |
|---|---|
| Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol | 3.5 |
| Trosglwyddo Asedau Cymunedol 2 | 5.1 |
| Pawb a'i Le | 15.5 |
| Sgiliau Trydydd Sector | 1.0 |
| Rhaglen Wledig - Grantiau Cymunedol | 4.0 |
| Tlodi yn y Gwaith | 6.0 |
| Cyllideb ar gyfer datblygu rhaglenni pellach | 2.8 |
| | **37.9** |

| Rhaglenni Gogledd Iwerddon | Cyllideb gymeradwy 2017–18 £m |
|---|---|
| Arian i Bawb Gogledd Iwerddon | 4.5 |
| Empowering Young People | 6.7 |
| Impact of Alcohol NI wide | 0.1 |
| People and Communities NI | 11.2 |
| Reaching Out - Connecting Older People | 1.1 |
| Reaching Out - Empowering Young People | 1.2 |
| | **24.8** |

| Rhaglenni Deyrnas Unedig | Cyllideb gymeradwy 2017–18 £m |
| --- | --- |
| Tyfu Syniadau Gwych ac Ymchwilio Ymagweddau Newydd | 29.0 |
| Grantiau Bach 2017/18 (Dod â Phobl Ynghyd) | 1.3 |
| Dyfarniadau Unigol Deyrnas Unedig (Etifeddol) | 3.3 |
| Rhyngwladol (Newydd) | 4.5 |
| Prosiectau'r Bobl | 4.0 |
| | **42.1** |

Sylwer mai teitlau drafft yw'r rhai ar gyfer rhaglenni newydd, ac y gallent newid pan gaiff pob rhaglen ei lansio. Cynhyrchir y dadansoddiad cyllideb drafft hwn cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac mae addasiadau pellach yn bosib. Gyda chymeradwyaeth gan y Bwrdd, byddwn yn cario ymlaen unrhyw danwariant a adnabyddir yn y gyllideb grant 2016-17 gan y cyfrifon diwedd blwyddyn. At hynny, wrth i ni ddatblygu ein portffolio ariannu, gall y symiau a ddyrennir gael eu mireinio o fewn cyfanswm cyffredinol y gyllideb grant. Gall cyllidebau grant gael eu hamrywio hefyd gyda chymeradwyaeth gan y Bwrdd wrth ymateb i newidiadau mewn incwm gan y Loteri Genedlaethol.

# Cyllideb costau gweithredu

**Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o incwm y Loteri Genedlaethol a wariwn ar ddosbarthu, a pharhawn i geisio gostwng y costau hyn.**

Mae gennym drothwy targed costau gweithredu ar gyfer costau gweinyddu craidd o bump y cant, gyda thri y cant pellach ar gyfer cefnogaeth rheng flaen i ymgeiswyr grant. Rydym wedi cyllidebu i gyflawni'r targedau hyn er gwaethaf incwm is gan y Loteri Genedlaethol. Y cyfanswm cyllideb gweithredu ar gyfer 2017-18 yw £53.3 miliwn.

Buddsoddwyd mewn ailstrwythuro gweithgareddau'r Gronfa yn 2016-17 i ysgogi newid a chyflwyno arbedion. Bydd hyn yn parhau yn 2017-18 wrth i ni fuddsoddi mewn adnoddau a gwasanaethau priodol i adlewyrchu uchelgeisiau Galluogi Pobl i Arwain.




**East Belfast Alternatives**
Gyda grant gan Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, mae East Belfast Alternatives wedi prynu gliniaduron a gaiff eu defnyddio i wella sgiliau gwaith a datblygiad personol pobl ifainc trwy eu rhaglen START.

cronfaloterifawr.org.uk
0300 123 0735

facebook.com/biglotteryfundwales
twitter.com/loterifawrcymru

BLF16_45

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED